Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

| | |
|---|---|
| **Cynhaliwyd ar:** | **26 Chwefror 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **David Shiel** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **David Shiel** |
| **Teitl:** | **Ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli AHNE** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

*Ymgynghoriad ar Gynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.*

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

*Mae angen penderfyniad i fabwysiadu'r Cynllun Rheoli AHNE yn ffurfiol.*

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

*Argymhelliad - bod y Cyd-bwyllgor yn mabwysiadu Cynllun Rheoli AHNE 2014 – 2019 yn ffurfiol.*

**4. Manylion yr Adroddiad.**

*Daeth y cyfnod ymgynghori ar gyfer Rheoli AHNE i ben ym mis Awst 2015. Mae'r Cynllun Rheoli wedi ei ddiwygio lle y bo'n briodol, yn unol ag ymatebion a dderbyniwyd. Mae'r Adroddiad Ymgynghori wedi'i atodi.*

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

*Mae gan yr Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i gynhyrchu Cynllun Rheoli a'i adolygu bob 5 mlynedd. Mae'r Cynllun yn gosod agenda ar gyfer rheoli'r AHNE yn unol â Rhinweddau a Nodweddion Arbennig a nodwyd. Mae'r Cynllun yn cynnwys*

*Strategaeth Rheoli*
*Adroddiad ar Gyflwr AHNE*
*Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd*

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council · Wrexham County Borough Bwrdeistref Sirol Wrecsam · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae £2,500 wedi ei ddyrannu o fewn y cyllidebau presennol i gyhoeddi'r Cynllun terfynol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

*Amh.*

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cafodd y Cynllun Drafft ei ystyried gan y Bartneriaeth AHNE yn eu Cyfarfod ar 15 Mai 2015.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae adnoddau wedi'u nodi i gyhoeddi'r cynllun o fewn y gyllideb gyffredinol. Bydd gwariant yn cael ei fonitro a bydd unrhyw amrywiannau yn cael eu hadrodd drwy'r broses monitro'r gyllideb.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

*Mae risg i enw da'r AHNE a'r Awdurdodau Lleol gyda methiant i gyhoeddi'r Cynllun Rheoli Statudol. Gallai arian gan Gyfoeth Naturiol Cymru / Llywodraeth Cymru gael ei dynnu'n ôl.*

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

*Mae Adran 101(5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r pŵer i Awdurdodau Lleol ddod i gytundeb i gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill ar ffurf Cyd-bwyllgor.*